CYFRES B6

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 29: 1-30

ADNOD
ALLWEDDOL
Galatiaid 6: 7

Astudiaeth 1 Jacob a'i Deulu – Yn Haran

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 27 Mathew 19: 5 a 6 Rhufeiniaid 7

Yn yr astudiaethau hyn, rydyn ni'n cwrdd â dyn o'r enw Jacob. Mae wedi dianc o'i gartref. Roedd Jacob wedi twyllo ei dad, Isaac, ac wedi twyllo'i frawd, Esau, hefyd er mwyn cael y fendith arbennig y dylai Esau fod wedi'i chael.
Gan fod Esau'n bygwth lladd Jacob, anfonodd eu mam, Rebeca, Jacob i ffwrdd i aros gyda'i ewythr oedd yn byw yn Haran (neu Padan-Aram) ym Mesopotamia. Yma, byddai'n ddiogel oddi wrth Esau ac efallai y byddai'n dod o hyd i wraig o blith perthnasau ei fam.

CROESAIR

Llanwch y CROESAIR i weld beth ddigwyddodd nesaf.

Cliwiau i Lawr

1. Beth oedd dros geg y pydew?
4. Enw ewythr Jacob.
6. Roedd hwn yn y pydew.
8. O ble roedd y bugeiliaid yn dod?

Cliwiau ar Draws

2. Beth oedd maint 1 i lawr?
3. Pwy oedd y ferch ddaeth gyda'r defaid?
5. Sut aeth y ferch nôl at ei thad?
7. Sawl diadell oedd yn gorwedd ger y pydew.



8

Daeth Jacob a Rachel i nabod ei gilydd o dan amgylchiadau rhyfedd iawn. Pe bai Jacob wedi mynd at bydew arall neu wedi cyrraedd ychydig yn hwyrach, fe fyddai wedi'i cholli!
Ond ni ddigwyddodd hynny!

C Pam? Ticiwch y blwch cywir.

	Ie	Na
Ai achos bod Jacob wedi amseru'r daith yn dda?	☐	☐
Ai cyd-ddigwyddiad oedd e?	☐	☐
Ai Duw oedd wedi trefnu'r cyfan?	☐	☐

1

Efallai nad oedd Jacob yn sylweddoli hynny, ond roedd Duw yn rheoli'r sefyllfa.

Cafodd Jacob groeso yng nghartref Laban a phenderfynodd aros yno. Roedd ei dad wedi dweud wrtho am chwilio am wraig ymhlith merched Laban ac roedd Duw wedi ei arwain at ferch yr oedd yn ei charu ac yn dymuno'i phriodi.

C **Am sawl blwyddyn oedd Jacob yn barod i aros am y fraint hon?** 1

Yn y diwedd, cyrhaeddodd diwrnod y briodas. Roedd Jacob yn mynd i briodi Rachel.

C **Rhowch ✔ neu ✘ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-** 5

Trefnodd Laban wledd fawr. .....

Rachel oedd gwraig gyntaf Jacob. .....

Dywedodd Laban ei bod yn rhaid i'r ferch ieuengaf briodi gyntaf. .....

Cafodd Jacob ei dwyllo gan Laban i briodi Leah. .....

Gweithiodd Jacob am saith mlynedd arall er mwyn cael Rachel yn wraig iddo. .....

Yn y dyddiau hynny, roedd gan rai dynion fwy nag un wraig ond doedd hynny ddim yn rhan o gynllun Duw. Bwriad Duw oedd mai dim ond un wraig y dylai dyn ei chael. Gweler Mathew 19: 5 & 6

Roedd Jacob wedi twyllo Isaac, ei dad, flynyddoedd yn gynt a nawr roedd Laban wedi'i dwyllo ef.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellwch y rhan sy'n ein hatgoffa y bydd y pethau drwg yr ydyn ni wedi'i wneud i bobl eraill yn siwr o ddal i fyny â ni.** 3

Daeth yn bryd i Jacob adael Laban. Roedd Jacob wedi treulio 20 mlynedd gydag ef a daeth yn bryd iddo symud ymlaen.



C **Beth ddywedodd Duw wrtho am ei wneud? (Genesis 31: 3)** 1

Bu Jacob a'i wragedd yn trafod beth yr oedd Duw wedi dweud wrtho am ei wneud.

C **Darllenwch ddiwedd Genesis 31: 16 ac ysgrifennu sut wnaeth y gwragedd ymateb.** 1

Mae'n edrych yn debyg bod dau rym yn gweithio ym mywyd Jacob. Yn gyntaf, roedd grym ei ewyllys ei hunan a oedd yn aml yn ei gael i drafferth. Yna, roedd grym ewyllys Duw ond, gwaetha'r modd, nid oedd yn talu llawer o sylw i hwn.

Ydych chi'n gwneud ewyllys Duw?

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 32: 1-32

ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 32: 11

Astudiaeth 2 Jacob a'i Deulu – Ym Mheniel

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen – Ystyriwch hefyd brofiadau Moses, Eseia a Paul yn: Exodus 3: 1-22 a 4: 1-17 Eseia 6: 1-13 Actau 9: 1-19

Weithiau mae rhyw argyfwng yn codi a dydyn ni ddim yn gwybod sut i ymateb. Dyna a ddigwyddodd i Jacob. Roedd wedi gadael Haran ac roedd ar ei ffordd nôl i Ganaan. Gwyddai y byddai'n rhaid iddo gwrdd â'i frawd, Esau, cyn hir. Roedd yn poeni'n ofnadwy am hyn.

C **Darllenwch Genesis 27: 41 ac esbonio YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam, hyd yn oed ar ôl 20 mlynedd, bod ar Jacob ofn cwrdd ag Esau.**

1

Ond, fel y gwelwn ym mhennod 32 roedd Jacob yn cael ei annog i gario mlaen.

1

C **Beth wnaeth ei atgoffa bod Duw gydag ef?**

C **Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y paragraff isod i weld beth sy'n digwydd nesaf.**

4

Anfonodd Jacob negeswyr at Esau i ddweud, "Mae Jacob, dy ..... ,
yn dweud iddo fod yn aros gyda Laban a bod ganddo ..... ac ..... ."
Daeth y negeswyr yn ôl a dweud bod Esau'n dod â ..... o ddynion

Roedd ofn ar Jacob pan glywodd y newyddion. Yn ôl adnodau 7-12 gwnaeth ddau beth:-

C **1. Gwnaeth GYNLLUN. Ysgrifennwch frawddeg i ddweud beth oedd y cynllun.**

1

C **2. GWEDDÏODD ac, yn ei weddi, atgoffodd Dduw o ddau addewid yr oedd wedi'u gwneud flynyddoedd yn gynt. Ysgrifennwch yr addewidion yn y swigod siarad.**

2

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a THANLINELLU y cais arbennig a wnaeth Jacob i Dduw.**

2

Gwnaeth Jacob y ddau beth yn y drefn anghywir. Pan fyddwn mewn argyfwng, dylem weddïo yn gyntaf a chynllunio wedyn! Efallai ei fod yn teimlo bod arno angen cwrdd â Duw eto a chael rhagor o brawf y byddai'n ei helpu.

C **Rhowch ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-**

Treuliodd Jacob y noson gyda'i deulu. ☐

Bu 'dyn' yn ymgodymu gyda Jacob trwy'r nos. ☐

Penderfynodd Jacob ffoi oddi wrth Esau. ☐

Aeth Jacob ymlaen i gwrdd ag Esau ar ei ben ei hunan. ☐

4

Cafodd Jacob brofiad rhyfedd ond pwysig. Roedd yn siwr ei fod wedi cwrdd â Duw! Roedd hynny'n bwysicach na chwrdd ag Esau!

C **Ysgrifennwch y frawddeg o'r Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud bod Jacob yn gwybod ei fod wedi cwrdd â Duw.**

1

Ar ôl blynyddoedd o dwyll a mynd ei ffordd ei hunan yn hytrach na ffordd Duw, daeth Jacob at groesffordd ac, o'r diwedd, roedd yn barod i roi ei fywyd yn llwyr i Dduw.

C **Beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r cyfarfod hwn? Llanwch y bylchau:-**

2

..... Duw ef (adnod 29).
Rhoddodd Duw ..... newydd iddo (adnod 28).

Roedd clun Jacob wedi dod o'i lle. Byddai'n gloff am weddill ei oes ac ni fyddai'n hawdd iddo ffoi oddi wrth Dduw eto.
Pan fyddwn ni'n wynebu anawsterau, mae angen i ninnau gyfarfod â Duw. Mae hyn yn golygu treulio amser ar ein pen ein hunain gydag Ef, yn gweddïo ac yn meddwl. Fel hyn, cawn fendith Duw. Hefyd, gallwn gael gwared â rhai o'r pethau drwg yn ein bywydau, os ydym yn barod i adael i Dduw reoli ein bywydau.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 35: 1-15

ADNOD
ALLWEDDOL
Salm 37: 7

Astudiaeth 3 Jacob a'i Deulu – Ym Methel

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 91 Rhufeiniaid 8: 1-39 Hebreaid 13: 5

Yn y pen draw, fe wnaeth Jacob gyfarfod ag Esau. Doedd hynny ddim hanner cynddrwg â'r disgwyl. Yn sicr, roedd Duw gyda Jacob yn ei helpu. Addawodd Jacob i Esau y byddai'n ei ddilyn i Ganaan. Ond, unwaith eto, torrodd Jacob ei addewid. Prynodd ddarn o dir ac aros yno er ei fod wedi addo i Esau y byddai'n ei ddilyn. (Gweler Genesis 33: 16-20) Felly bu'n rhaid i Dduw siarad â Jacob eto.



C **Beth ddywedodd Duw wrth Jacob am ei wneud? (Gweler adnod 1)**

2

Roedd Jacob yn gwybod ei fod yn mynd i gwrdd â Duw. Gwyddai hefyd nad oedd ei deulu'n barod i wneud hyn.

C **Nodwch y TRI pheth y dywedodd Jacob wrth ei deulu am eu gwneud cyn y gallent gwrdd â Duw.**

1
2
3

3

Er bod Jacob wedi pellhau oddi wrth Dduw, roedd yn gwybod na fyddai Duw yn ei siomi.

C **Edrychwch ar adnod 3 ac ysgrifennu disgrifiad Jacob o'r hyn yr oedd Duw wedi'i wneud iddo.**

1

Gall pob gwir Gristion ddweud hyn. Gall Cristnogion grwydro oddi wrth Dduw ond dydi Duw byth yn eu gadael.

C **Ysgrifennwch ail hanner Hebreaid 13:5 sef un o addewidion mwyaf Duw yn y Beibl.**

2

GRID GEIRIAU

Llanwch y GRID GEIRIAU.
(Darllenwch adnodau 5-11)



1. Enw mamaeth Rebeca a fu farw.
2. Cafodd ei chladdu o dan un o'r rhain.
3. Beth wnaeth Duw i Jacob. (Adnod 9)
4. Enw newydd Jacob.
5. Cododd Jacob un o'r rhain yma yn y man lle bu Duw'n siarad ag ef

6

C **Edrychwch yn y Grid Geiriau am enw'r man lle y digwyddodd hyn a'i liwio.**

1

Mae'r enw hwn yn golygu 'Tŷ Dduw'. Yma eto, roedd Jacob yn cwrdd â Duw ac roedd arno wir angen gwneud hynny. Roedd ef a'i deulu wedi crwydro ac roedd argyfwng arall yn mynd i ddigwydd.

C **Darllenwch bennod 35: 17-19 ac esbonio pa broblem y byddai'n rhaid i Jacob ei hwynebu.**

1



Pan ddown ni'n Gristnogion, mae angen help arnom o hyd i ddelio â methiannau'r gorffennol. Mae angen nerth arnom hefyd i ymdopi â'r anawsterau newydd y bydd raid i ni eu hwynebu. Mae'n amlwg fod hwn yn lle arbennig iawn i Jacob.

C **Ysgrifennwch y TRI pheth a wnaeth Jacob ar ôl i Dduw siarad ag ef. (Adnodau 13-15)**

1
2
3

3

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dangos i ni sut y gallwn ninnau hefyd gyfarfod â Duw.**

1

Roedd Peniel a Bethel yn llefydd y byddai Jacob yn eu cofio am byth. Yma, roedd wedi cwrdd â Duw ac roedd Duw wedi'i fendithio. Dim ond pan fyddwn ni'n cymryd amser, ynghanol prysurdeb ein bywydau, i siarad â Duw ac i ddarllen ei Air, y bydd Ef yn ein bendithio ni.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 37: 1-36

ADNODAU ALLWEDDOL
Effesiaid 4: 31 a 32

Astudiaeth 4 Jacob a'i Deulu – Yng Nghanaan

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 56 Mathew 5: 43-48 Effesiaid 4: 22-32

Erbyn i Joseff gael ei eni, roedd gan Jacob ddeg mab ac un ferch. Joseff oedd mab hynaf Rachel. Roedd yna genfigen a phroblemau eraill yn y teulu. Bu farw mam Joseff wrth eni ei frawd, Benjamin. Gallai'r holl brofiadau hyn fod wedi gwneud Joseff yn chwerw ond roedd ganddo ffydd yn Nuw i'w gynnal. Dydyn ni ddim yn gwybod pryd y dechreuodd Joseff gael ffydd yn Nuw.

C **Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn ein cyflwyno ni i Joseff. Faint oedd oed Joseff yma?** ☐ 1

C **Darllenwch adnod 2 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth i wylltio ei frodyr.** 1

Roedd cwlwm arbennig o gariad rhwng Jacob a Joseff gan fod Jacob mor hoff o Rachel. Dangosai Jacob ei gariad at Joseff mewn ffordd sy'n ymddangos yn annoeth ac felly tyfodd cenfigen ei frodyr yn chwerw iawn.

C **Beth roddodd Jacob i Joseff a pham?** 2

Roedd y deg brawd yn gwisgo dillad cras i lawr at y pen-glin – dillad dynion oedd yn gwneud gwaith garw yn yr awyr agored. Dynion cyfoethog nad oedd yn gorfod gweithio oedd yn gwisgo dillad fel y gôt a gafodd Joseff. Roedd Jacob yn trin Joseff yn well na'i frodyr. Roedd breuddwydion Joseff yn gwneud i'w frodyr ei gasáu hyd yn oed yn fwy.

C **Beth oedd y breuddwydion? Gallwch eu hysgrifennu mewn geiriau neu dynnu lluniau ohonynt.**



4

C **Beth ddywedodd y brodyr am freuddwyd gyntaf Joseff?** 1

C **Beth ddywedodd Jacob am yr ail freuddwyd?** 1

POS GEIRIAU

C Atebwch y cliwiau isod a rhoi'ch atebion yn y grid.

(Awgrym: Rhowch y gair hiraf i ddechrau). Mae'r rhif mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn yn dangos sawl llythyren sydd yn yr ateb.



1 I ble wnaeth Jacob anfon Joseff i weld sut roedd ei frodyr?
(5) _ _ __ _ _

2 Lle daeth Joseff o hyd i'w frodyr?
(5) _ _ __ _ _

3 Pa un o frodyr Joseff nad oedd eisiau ei ladd? (6) _ _ _ _ _ _

4 Awgrymodd un o frodyr Joseff y dylid ei werthu i'r rhain.
(10) _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

5 O ble roedd yr Ismaeliaid wedi dod? (6) _ _ _ _ _ _

6 I ble roedden nhw'n mynd?
(2 + 4) _ _ _ _ __ _

7 Prynodd yr Ismaeliaid Joseff am ugain darn (sicl) o _ _ _ _ _. (5)

8 Lladdodd brodyr Joseff afr fel y gallent drochi ei wisg yn ei _ _ _ _ _. (5)

8

Roedd yr hedyn o genfigen yng nghalonnau brodyr Joseff wedi tyfu'n chwerwder a chasineb ac, yn y pen draw, gwnaeth hynny iddyn nhw bechu'n ddifrifol. O ganlyniad i'r genfigen ofnadwy hon:
a) Gwerthwyd Joseff i fod yn gaethwas.
b) Cafodd Jacob dristwch mawr.
c) Bu'n rhaid i'r brodyr fyw gyda'u heuogrwydd am flynyddoedd lawer.

C Chwiliwch am yr Adnodau Allweddol a'u hysgrifennu yma.

2

Ydi'ch pechodau chi wedi cael eu maddau trwy'r Arglwydd Iesu Grist? Ydych chi'n sylweddoli ei fod Ef wedi marw er mwyn maddau'ch beiau chi?

---

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120